**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED A GYNHALIWYD AR 18 TACHWEDD 2025, 7:00 Y.H.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Cemlyn Jones, Dylan Jones, Gwynedd Williams, Ann Lawton, Berwyn Parry Jones, Beca Brown, Colin Swatridge, Philip Roberts.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Richard Robinson, Hefin Jones

**Cyfieithydd:** Lowri Gwyn, Lingo Cyf**.**

**Aelodau o'r Cyhoedd:** 3

**Clerc:** Meirion Jones

Ar gychwyn y cyfarfod adroddwyd fod y Cynghorydd Alan Pritchard ddim wedi gallu mynychu cyfarfodydd o'r cyngor ac ar sail ei bod wedi methu chwech cyfarfod dilynol mae hyn oddi tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn awtomatig yn ei anghymwyso rhag eistedd fel cynghorydd. Fodd bynnag, mae gan y cyngor yr opsiwn o dderbyn ei ymddiheuriadau a'i absenoldeb, dim ond iddynt gymeradwy rheswm ei absenoldeb. Gofynnir yn sgil amgylchiadau arbennig yr aelod i'r cyngor gymeradwyo ei absenoldeb a sicrhau ei fod yn parhau yn aelod o'r cyngor.

**Penderfynwyd:** Cymeradwyo absenoldeb Y Cynghorydd Alan Pritchard ar sail yr amgylchiadau sydd wedi darparu

**:**

**1527. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod

**1528 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fela nodwyd uchod

**1529. Datgan buddiant.**

Eitem 1537 C

Fe ddatganodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ddiddordeb yn y cais yma ar sail ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ac fe adawodd y cyfarfod ac ni chymerodd ran mewn unrhyw drafodaeth.

Fe ddatganodd y Cynghorydd Ann Lawton, fuddiant personol ynghyd a buddiant rhagfarnllyd yn eitem 1537 c ac fe ymadawodd y cyfarfod ac ni chymerodd ran mewn unrhyw drafodaeth

**1530. I dderbyn cofnodion cyfarfod 21 Hydref 2025**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1531. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Dim

**1532. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1533. I ystyried trefniadau gwasanaeth bws rhwng Llanrug a Waunfawr (Cyng Ann Lawton)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Ann Lawton ei bod wedi derbyn cwyn gan etholwyr yn nodi nad oedd bws gwasanaeth bellach yn teithio o Llanrug i Waunfawr drwy Ceunant. Mae'r gwasanaeth cyfredol yn rhedeg o Llanrug, i Gaernarfon ac yna drwy Waunfawr.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd i holi os mai dyma'r achos ac os oedd bwriad i ail-gychwyn y gwasanaeth i Waunfawr drwy Ceunant.

**1534. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor y Fynwent (Cynghorydd Philip Roberts)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor fel a ganlyn

- Penderfynwyd y bydd ymgynghoriad am flodau ffug a'i tebyg yn y fynwent yn cael ei chyhoeddi ar wefan a thudalen Facebook y Cyngor; ymgynghoriad i redeg rhwng mis Ionawr a diwedd y Gaeaf.

  Hefyd penderfynwyd :
- Holi Ymgymerwyr am gymwysterau torrwr beddi.
- Gweithio gyda chontractwr i uwch raddio cofebion categori Un yn dilyn Asesiad Risg blynyddol yn y fynwent.
- Ymgeisio trwsio stêcs tu ôl i rai cerrig beddi.
- Derbyn Polisi Bioamrywiaeth arbennig i'r Fynwent.
- Mater arall i'w nodi yw bod gwaith i greu gofod parcio anabl a pheintio llinellau gwyn ym maes parcio'r Fynwent wedi'i chwblhau .

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1535. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor nad oed y pwyllgor wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf o'r cyngor ond ymysg y materion mae'r pwyllgor wedi gweithredu arno yn y mis aeth heibio oedd:-

- Fod gwaith ar y parc sglefrio wedi cychwyn

- Fod angen adnewyddu'r ffens wrth cae chwarae Allt Goch
- Trefniadau Goleuadau Nadolig ar y gweill
- Cyngor Gwynedd am osod y goleuadau a'r coed
- Dwy goeden wedi archebu ynghyd a dwy set o oleuadau lliw
- Hyfforddiant ar gyfer y diffibs wedi drefnu ac angen ei hysbysebu ar ein gwefan cymdeithasol

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1536. I ystyried canllawiau parcio arfaethedig Cyffordd Ffordd Glan Moelyn (Cyng Beca Brown). (Manylion eisoes wedi cylchredeg)**

**Yn ôl y swyddog traffig, mae'n hanfodol fod y cyngor yn ystyried y canlynol cyn dod i benderfyniad**

- **Gwir bryder am ddiogelwch a llif traffig (mae rhaid rhoi rhesymeg gyfreithiol gadarn i berwyl hyn).**
- **A yw'r pryder yn achlysurol neu barhaus.**
- **A yw'r gwaharddau newydd am greu problem debyg neu waeth mewn ardal gyfagos.**
- **Effeithlonrwydd y gwaharddau ar ymddygiad gyrwyr.**
- **Disgwyliadau gorfodaeth yn yr ardal.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Beca Brown, fod mwy nac un digwyddiad wedi digwydd yn y gyffordd yma ac fod o leiaf dwy ddamwain wedi bod. Adroddodd yr aelod iddi gyfarfod gyda Cyng Berwyn Parry Jones ar y safle, ac adroddwyd yn ôl at Gyngor Gwynedd y pryderon ar ddiogelwch y groesffordd. Fel rhan o'r broses i wneud y groesffordd yn fwy diogel, mae'r cyngor wedi derbyn dewis o ddau argymhelliad gan y swyddog traffig ac mae'n ofynnol i'r cyngor gymeradwyo un cynllun.

**Penderfynwyd:**

- Mynegwyd pryder am ddiogelwch ar y gyffordd gyda sawl aelod yn mynegi pryder ac hefyd yn gallu tystio i nifer o ddigwyddiadau peryglus ar y gyffordd.
- I gysylltu a Cyngor Gwynedd yn cefnogi argymhelliad o ychwanegi llinellau melyn dwbl o amgylch y groesffordd yn y mannau a adnabuwyd

**1537. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C25/0795/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Newid defnydd o gartref gofal preswyl (C2) ar wahan gyda pharcio a garej yn y cefn i anheddiad un teulu preswyl (C3) Change of use from detached residential care home (C2) with parking and garage at rear to residential single family dwelling ( C3)

**Ymgeisydd:** (BLUE ALPINE PARTNERS )
**Asiant:** Annie Khatnani (Bischell Construction)
**Cyfeiriad:** Foelas Residential Home Ffordd Yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4BE
**Cyfeirnod Grid:** 254022.9999999999, 363658.99999999936
**Ward:** Llanrug
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu'r cais

b) **Rhif y Cais:** C25/0748/23/CC
**Math o Gais:** Gwaith i goed wedi'u amddiffyn
**Bwriad:** Gwaith i goed sydd yn destun gorchymyn gwarchod coed. Work on trees that is subject to a tree preservation order
**Ymgeisydd:** Park Holidays (Park Holidays UK Ltd)
**Asiant:** Phil Brophy (Barrell Treecare)
**Cyfeiriad:** Bryn Teg Caravan Park, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RF
**Cyfeirnod Grid:** 254425.9999999999, 362355.0000000003
**Ward:** Cwm y Glo
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C25/0651/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais cynllunio llawn ar gyfer 17 annedd fforddiadwy, ynghyd a chreu mynediad newydd i gerbydau a ffordd fynedfa fewnol, cau 2 bwynt mynediad amaethyddol presennol, creu mynediad newydd i wasanaethu is-orsaf newydd, gwaith ymestyn Ffordd Glanffynnon ynghyd a gwaith tirlunio, draenio a gwaith arall cysylltiedig. Full planning application for 17 affordable dwellings, together with creating new vehicle access and an internal entrance road, closing 2 existing agricultural access points, creating new access to serve a new sub-station, extension works to Glanffynnon Road along with landscaping, drainage, and other related works.
**Ymgeisydd:** (Adra)
**Asiant:** Mr Sion Roberts (Cadnant Planning)
**Cyfeiriad:** Tir Oddi Ar Ffordd Glanffynnon, Llanrug, LL55 4PT
**Cyfeirnod Grid:** 253645.89838832873, 363055.38469775394
**Ward:** Llanrug
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Gohirio penderfyniad nes wedi cal adroddiad Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.